

# Helô, Bute Energy ydyn ni.


## Diolch am ddod heddiw


Rydyn ni'n ddatblygwr prosiectau ynni adnewyddadwy ar y tir. Ein cenhadaeth yw creu prosiectau sy'n creu Cymru gyfoethocach ac iachach – gan wneud i dywydd Cymru weithio i Gymru drwy'r buddsoddiad busnes mwyaf yn yr economi wledig ers cenhedlaeth.

Rydyn ni wedi adeiladu cyfres o brosiectau parciau ynni yng Nghymru sy'n arwain y farchnad, a fydd yn cyfuno'r dechnoleg ddiweddaraf ar gyfer cynhyrchu ynni gwynt ar y tir a solar.

Heddiw, byddwch yn dysgu rhagor am ein cynlluniau i ddatblygu Parciau Ynni Banc Du a Rhiwlas, sydd wedi'u lleoli i'r gogledd-orllewin a'r de-ddwyrain o Langurig.

Dewch i gwrdd ag aelodau o dîm y prosiect a fydd yn gallu ateb eich cwestiynau ac ymateb i'ch sylwadau.




Bute Energy
Parc Banc Du

Bute Energy
Parc Rhiwlas




# Buddion

## Rydyn ni’n anelu at:

Gynhyrchu ynni glanach, gwyrddach a mwy cynaliadwy a fydd yn lleihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr ac yn helpu i gyrraedd targedau sero net lleol a rhai Llywodraeth Cymru.

Datblygu pecyn cynhwysfawr o fuddsoddiad â ffocws lleol, gan gynnwys Cronfa Budd Cymunedol hyd at £297,000 ar gyfer Parc Ynni Banc Du a £643,000 ar gyfer Parc Ynni Rhiwlas, a fydd yn ei le dros oes y prosiectau.

Arallgyfeirio a buddsoddi’n sylweddol yn yr economi leol, ranbarthol a chenedlaethol, gan greu swyddi ‘gwyrdd’ a chyfleoedd uwchsgilio.

Ymgysylltu a chydweithio ag ysgolion a cholegau i hyrwyddo gwybodaeth, sgiliau a chyfleoedd gyrfa yn y sector ynni adnewyddadwy.


Gweithio gyda thirfeddianwyr lleol i sicrhau bod gweithgareddau amaethyddol yn parhau ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol.

Cadw a gwarchod cynefinoedd bywyd gwyllt ar draws y safle yn ogystal â hybu bioamrywiaeth yn lleol.

Bydd cynhyrchu ynni yma yng Nghymru a’r DU yn lleihau ein dibyniaeth ar ffynonellau ynni tanwydd ffosil a fewnforir, gan ddarparu sicrwydd ynni tymor hwy.



# Parc Ynni Banc Du





## Cynnig

- 6 tyrbin gwynt
- Uchder blaen llafn o 200 metr
- 360 hectar
- 39.6 megawat (capasiti gosodedig) o ynni glân, adnewyddadwy
- Digon i bweru tua 40,000 o gartrefi*

*Dull a argymhellir gan **RenewableUK www.renewableuk.com/energypulse/ukwed/**

# Parc Ynni Banc Du




# Diweddariadau ar y Cynnig

Rydym yn ddiolchgar am yr holl adborth a ddaeth i law yn ystod ein cam ymgynghori anstatudol ar ddiwedd 2022. Yn seiliedig ar yr adborth hwnnw, arolygon amgylcheddol pellach a thrafodaethau ag ymgyngoreion arbenigol, rydyn ni wedi gwneud y newidiadau canlynol i'r prosiect:

**Lleihau nifer y tyrbinau o 7 to 6.**


**Mae uchder blaen llafnau yn 200m yn aros**

**Storio solar a batri: Ar hyn o bryd, nid ydym bellach yn bwriadu datblygu systemau storio ynni solar a batri ar y safle. Gallai hyn newid yn y dyfodol, ond byddai hynny'n amodol ar gais cynllunio newydd.**

**Cyfluniad tyrbinau a seilwaith diwygiedig i leihau neu osgoi sensitifrwydd a derbynyddion allweddol, gan gynnwys ecoleg ac adareg, effeithiau tirwedd ac effeithiau gweledol.**

**Rydym wedi monitro sŵn o amgylch y safle ac wedi ymgynghori  â Chyngor Sir Powys i sefydlu terfynau sŵn i ddiogelu amwynder preswyl. Mae'r Parc Ynni wedi'i gynllunio i weithredu o fewn y paramedrau hyn.**

# Parc Ynni Rhiwlas





## Cynnig

- 13 o dyrbinau gwynt
- Uchder blaen llafn o 200 metr
- 580 hectar
- 85.8 megawat (capasiti gosodedig) o ynni glân, adnewyddadwy
- Digon i bweru tua 79,000 o gartrefi*

*Dull a argymhellir gan **RenewableUK www.renewableuk.com/energypulse/ukwed/**

# Parc Ynni Rhiwlas




# Diweddariadau ar y Cynnig

Rydym yn ddiolchgar am yr holl adborth a ddaeth i law yn ystod ein cam ymgynghori anstatudol ar ddiwedd 2022. Yn seiliedig ar yr adborth hwnnw, arolygon amgylcheddol pellach a thrafodaethau ag ymgyngoreion arbenigol, rydyn ni wedi gwneud y newidiadau canlynol i'r prosiect:

**Lleihau nifer y tyrbinau o 15 i 13.**

**Mae uchder blaen llafnau yn 200m yn aros.**

**Storio solar a batri: Ar hyn o bryd, nid ydym bellach yn bwriadu datblygu systemau storio ynni solar a batri ar y safle. Gallai hyn newid yn y dyfodol, ond byddai hynny'n amodol ar gais cynllunio newydd.**

**Cyfluniad tyrbinau a seilwaith diwygiedig i leihau neu osgoi sensitifrwydd a derbynyddion allweddol, gan gynnwys ecoleg ac adareg, effeithiau tirwedd ac effeithiau gweledol.**

**Rydym wedi monitro sŵn o amgylch y safle ac wedi ymgynghori  â Chyngor Sir Powys i sefydlu terfynau sŵn i ddiogelu amwynder preswyl. Mae'r Parc Ynni wedi'i gynllunio i weithredu o fewn y paramedrau hyn.**




# Ystyriaethau amgylcheddol

Er mwyn sicrhau bod Parciau Ynni Banc Du a Rhiwlas yn cael eu dylunio gyda gofal a sensitifrwydd, rydym wedi cynnal arolygon helaeth ar ecoleg, sŵn, tirwedd ac effaith weledol. Mae'r asesiadau hyn wedi ein helpu i benderfynu ar y lleoliadau mwyaf addas ar gyfer y tyrbinau a sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw effeithiau posib gyda mesurau lliniaru cadarn.

## Mae ein Datganiad Amgylcheddol yn amlinellu'r holl arolygon a gynhaliwyd a'r camau rydym yn eu cymryd i ddiogelu'r amgylchedd:

Bydd y prosiectau yn sicrhau budd net i fioamrywiaeth yn ystod ei oes, gan gynnwys creu ac adfer cynefinoedd.

Rydym wedi cwblhau Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol (LVIA) cynhwysfawr, gan adolygu golygfeydd allweddol hyd at radiws o 45km mewn ymgynghoriad ag arbenigwyr tirwedd y Cyngor. Mae pob cartref o fewn 2km i'r tyrbinau wedi'u hasesu i sicrhau cyn lleied â phosib o darfu ar fwynderau gweledol preswyl.

Rydym wedi cydweithio'n agos â'r Awdurdod Hedfan Sifil, y Gwasanaethau Traffig Awyr Cenedlaethol, a'r Weinyddiaeth Amddiffyn i sicrhau bod ein cynlluniau'n cydymffurfio'n llawn â rheoliadau diogelwch hedfan.

Mae ein tîm wedi cynnal asesiadau cefndir archeolegol a hanesyddol helaeth o'r safle a'r ardal gyfagos. Daeth yr asesiadau hyn i'r casgliad nad oes unrhyw asedau treftadaeth dynodedig o fewn y safleoedd arfaethedig.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi cynnal arolygon adaryddol helaeth ar draws y safle, gan gynnwys arsylwi mannau gwylio, asesiadau adar magu ac adar ysglyfaethus, ac arolygon ar droed dros y gaeaf. Rhoddwyd sylw arbennig i rywogaethau megis y Barcud Coch, a all fod mewn perygl o wrthdrawiadau tyrbinau.

Rydym wedi cynnal gwaith monitro sŵn ac asesiadau effaith trylwyr yn unol ag arfer gorau, deddfwriaeth berthnasol ac mewn ymgynghoriad â Chyngor Sir Powys.

Mae cyfres o astudiaethau wedi'u cynnal o'r safle  er mwyn darparu dealltwriaeth fanwl o'r amgylchedd dŵr presennol a chyflwr y tir. Roedd hyn yn cynnwys asesiadau desg a sawl cam o waith maes.

Rydym wedi asesu'r potensial ar gyfer cysgodion symudol mewn eiddo preswyl cyfagos, ffenomen a achosir gan gylchdroi llafnau tyrbinau yn taflu cysgodion ysbeidiol.

Fel rhan o'n hymrwymiad i dryloywder, rydym wedi cyfrifo cost carbon adeiladu, gweithredu a chynnal y ddau Barc Ynni.






# Trafnidiaeth a mynediad

**Y pwynt mynediad ar gyfer cludo cydrannau tyrbinau fydd trwy gyffordd flaenoriaeth syml newydd ar yr A470 i'r dwyrain o Langurig. Bydd y gyffordd mynediad yn cael ei chynnwys yn y cais am ganiatâd, a bydd yn darparu mynediad ar gyfer yr holl lwythi annormal sy'n gysylltiedig â chludo'r tyrbinau, yn ogystal â mynediad ar gyfer cerbydau nwyddau trwm (HGV) sy'n cludo deunyddiau adeiladu.**

Bydd angen caniatâd cynllunio ar wahân ar gyfer unrhyw waith ychwanegol sydd ei angen i gludo llwythi annormal, a gyflwynir mewn ymgynghoriad â'r Awdurdod Lleol.

Bydd Cynllun Rheoli Trafnidiaeth yn cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â'r heddlu, awdurdodau priffyrdd, a chludwyr i sicrhau bod cydrannau'n cael eu cludo'n ddiogel ac yn effeithlon.




# Adeiladu

Rhagwelir y bydd Parciau Ynni Banc Du a Rhiwlas yn cael ei adeiladu rhwng 2027 a 2029. Bydd y gwaith adeiladu yn cael ei reoli gyda Chynllun Rheoli Adeiladu ac Amgylcheddol (CEMP), y cytunir arno gyda Chyngor Sir Powys, i sicrhau bod y prosiect yn cael ei ddatblygu yn unol â'r arferion amgylcheddol gorau.



## Cost carbon adeiladu

Mae'r gost carbon i adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw'r Parciau Ynni wedi'i chyfrifo yn rhan o'r cais cynllunio. Mae hyn yn cynnwys y carbon a grëir wrth adeiladu'r tyrbinau, y concrit a ddefnyddir yn y sylfeini a'r carbon a ryddheir wrth gloddio sylfeini.

O ystyried oes weithredol ragamcanol y datblygiad arfaethedig o 45 mlynedd, mae'r cyfrifiadau hyn yn dangos y bydd  Parciau Ynni Banc Du a Rhiwlas wedi cynhyrchu digon o ynni adnewyddadwy gwyrdd i ad-dalu cost carbon ei adeiladu a'i weithredu o fewn dwy flynedd yn erbyn cymysgedd tanwydd ffosil o gynhyrchu trydan.



# Buddsoddiad cymunedol

Rydyn ni wedi ymrwymo i ddarparu Cronfa Budd Cymunedol gynaliadwy o £7,500 fesul megawat o gapasiti gosodedig dros oes y Parciau Ynni i'r gymuned leol.

Bydd gan Barciau Ynni Banc Du a Rhiwlas Gronfa Budd Cymunedol o hyd at £940,500 gyda'i gilydd. Mae'r Gronfa hefyd yn gysylltiedig â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr er mwyn caniatáu ar gyfer chwyddiant economaidd a diogelu'r cyllid ar gyfer y dyfodol.

Rydyn ni'n creu cyfleoedd newydd, gan weithio ochr yn ochr â grwpiau lleol, elusennau a gwasanaethau i ddatblygu prosiectau etifeddiaeth er budd cymunedau lleol heddiw, ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**Beth yw'r themâu ar gyfer ein buddsoddiad cymunedol?**

- Cyflogadwyedd
- Addysg
- Amgylchedd a Diwylliant
- Hamdden ac Iechyd
- Cymorth costau byw

**Mae'r gwaith mapio cymdeithasol wedi nodi bod y themâu canlynol yn bwysig yn yr ardal hon lle gallwn ni ddarparu cymorth:**

- Lles a iechyd meddwl
- Diwylliant a lles cymunedol
- Poblogaeth sy'n heneiddio



Bute Energy Cymuned



# Amserlen y prosiect

## Diwedd 2022

Ymgynghoriad cychwynnol â chymunedau lleol, rhanddeiliaid ac ymgyngoreion arbenigol.

## Diwedd 2022 - Dechrau 2024

Esblygiad ein cynigion – wedi'i lywio gan adborth ymgynghori.

## Gwanwyn 2025

**Cyfnod cyfredol:** Ymgynghoriad Statudol gyda chymunedau lleol, rhanddeiliaid ac ymgyngoreion arbenigol.

## Haf 2025

Cyflwyno cais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol.

## Dechrau 2026

Disgwylir i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad ar y cais.

## 2027

Caffael y tyrbinau, contractau adeiladu a gwaith peirianneg sifil a thrydanol cysylltiedig.

## 2029

Adeiladu, ac allforio ynni glân, gwyrdd am y tro cyntaf i'r Grid Cenedlaethol.






# Dweud eich dweud

Rydym yn eich gwahodd i roi adborth ar ein cais cynllunio drafft ar gyfer Parciau Ynni Banc Du a Rhiwlas. Oherwydd maint yr ynni adnewyddadwy glân y bydd y prosiectau yn ei gynhyrchu, maent yn cael eu dosbarthu'n unigol fel Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS).

Bellach rydyn ni wrthi'n ymgynghori ar y cynigion terfynol cyn eu cyflwyno i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) i Weinidogion Cymru benderfynu arnyn nhw.

Caiff adborth a ddaw i law ei adolygu ac ymatebir iddo yn yr Adroddiad Ymgynghori a'i gyflwyno i PEDW yn rhan o'r cais cynllunio.

## Adborth

Gallwch roi eich adborth drwy lenwi ffurflen ar-lein sydd ar gael ar wefan y prosiect:

**bancduenergypark.wales**

**rhiwlasenergypark.wales**

Os hoffech chi gopi o'r **ffurflen adborth**, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Y dyddiad cau ar gyfer sylwadau yw:
**Dydd Llun 16 Mehefin 2025**

## Cysylltwch â ni

**banc.du@bute.energy**

**rhiwlas@bute.energy**

**01686 805 004** (ar gael yn ystod oriau swyddfa arferol)



bancduenergypark.wales

rhiwlasenergypark.wales